Llwybr Bysus Cyflym Glandŵr, Cam 2, Abertawe

Mae Cynllun Trafnidiaeth Lleol Dinas a Sir Abertawe yn darparu ar gyfer creu cyfleusterau Parcio a Theithio gyda llwybrau dynodedig i ganol y ddinas. Gwasanaethir y llwybr o'r gogledd gan gyfleuster Parcio a Theithio Glandŵr. Mae'r cynllun hwn yn creu ail gam y llwybr bysus cyflym i gwblhau cyswllt cyflym ac uniongyrchol dynodedig i ganol y ddinas ar gyfer bysus awdurdodedig gan gynnwys Parcio a Theithio, gwasanaethau cyflym a Metro Abertawe. Mae'r llwybr hwn hefyd wedi bod o fudd i'r gymuned leol gan ei fod yn lleihau tagfeydd traffig a lefelau llygredd drwy ardal yr Hafod.

Y brîff dylunio ar gyfer y llwybr oedd defnyddio'r tir cyfyngedig a oedd ar gael gerllaw'r rheilffordd, a darparu llwybr bysus dynodedig, gyda chysylltiadau llwybrau cerdded a beicio, gan leihau'r effaith ar yr amgylchedd drwy fanyleb ddylunio dda.

Roedd y gwaith yn cynnwys adeiladu pont newydd dros Stryd Maliphant, atgyfnerthu'r bwa bricwaith presennol dros Heol New Cut, mewnlenwi'r bont dros Bargemans Row, a gosod estyniad i bont newydd dros garej. Roedd angen adeiladu nifer o adeileddau i gadw'r pridd yn ôl ar y llwybr 1km, gan gynnwys rhan 100m o hyd o lethr wedi'i hoelio â phridd a'i gorchuddio â gwaith maen. Oherwydd y cyfle cyfyngedig i gael gwared ar ddŵr wyneb, defnyddiwyd system Draenio Trefol Cynaliadwy ar hyd y llwybr, a chynhyrchwyd offer draenio ymyl y ffordd â phlastig wedi'i ailgylchu.

•**Cleient**: Dinas a Sir Abertawe

•**Cyllid:** Cronfa WAG SWWITCH ac ERDF

•**Gwerth:** £2.8m

•**Location:** Yr Hafod, Abertawe

•**Dyddiadau Gwasanaeth:**
•2007 – 2008

•**Gwasanaethau:** Dylunio Priffyrdd ac Adeiledd, Caffael Tir, CADRh, Goruchwylio'r Safle a Rheoli Costau

•**Contractwr:** Alun Griffiths (Contractors) Ltd.